Dŵr Cymru
Welsh Water

Heol Pentwyn
Nelson
Treharris
Morgannwg Ganol
CF46 6LY

Ffôn: +44 (0)1443 452300
Ffacs: +44 (0)1443 452323
Safle gwe: www.dwrcymru.com

Gorffennaf 2010

Ar gyfer ymholiadau,
cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

0800 052 0130

Annwyl Gwsmer

Par: Gwaith Cynnal a Chadw Hanfodol

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cadw golwg yn barhaus ar eu sefyllfa adnoddau dŵr er mwyn sicrhau y gallwn gyflenwi'n cwsmeriaid bob amser. Mae eleni wedi gweld tywydd sych iawn, a gyda darogan bod yna haf poeth a sych o'n blaenau, 'rydym yn dymuno'ch hysbysu chi ynglŷn â gwaith 'rydym yn ei gynllunio er mwyn diogelu'ch cyflenwad dŵr.

Fe fyddwn yn cynnal gwaith cynnal a chadw hanfodol ar Brif System Ddŵr y Taf yn ystod cyfnod yr haf. Tra bod y gwaith hanfodol hwn yn cael ei wneud, fe allwch sylwi bod yna afliwiad dros dro yn eich cyflenwad dŵr. Fe fyddwn yn gwneud popeth y gallwn ni i atal hyn rhag digwydd. Fodd bynnag, os ydych yn profi afliwiad yn y dŵr, a fyddech cystal ag agor tap dŵr oer (fel arfer, eich tap cegin) tan y bydd y dŵr yn clirio. A fyddech cystal ag osgoi defnyddio dŵr mewn peiriannau golchi pan fydd wedi'i afliwio, gan y gall staenio dillad lliwiau golau.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth o gwbl, cofiwch beidio â phetruso cyn ffonio Dŵr Cymru Welsh Water ar 0800 052 0130. Mae'r rhif hwn ar gael bedair awr ar hugain y dydd.

Tra byddwn yn gwneud y gwaith hwn, ni ddylai fod arnom angen fel rheol mynd i mewn i'ch eiddo. Ond os bydd arnom angen mynediad, yna gofynnwch, os gwelwch yn dda, am gael gweld cardiau adnabod y galwyr cyn caniatáu iddynt ddod i mewn. Os oes gennych unrhyw bryderon, neu os yw galwr yn dangos cerdyn adnabod ac yr hoffech wirio pwy yw ef neu hi, a fyddech cystal â ffonio'n Llinell Gymorth Galwyr Ffug ar 0800 281 141. Mae'r llinell hon yn agored bedair awr ar hugain y dydd, saith niwrnod yr wythnos.

'Rydym yn ymddiheuro am unrhyw anhwylustod dros dro y gall y gwaith angenrheidiol hwn ei achosi.

Fe ellir canfod rhagor o wybodaeth yn darparu cynghorion defnyddiol ynglŷn â sut y gallwch chi leihau gwastraff dŵr yn ac o amgylch y cartref ar ein gwefan yn www.dwrcymru.com.

Yr eiddoch yn gywir

Gavin Williams
Rheolwr Yr Uned Ddosbarthu

glas
Glas Cymru Cyfyngedig
Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru - cwmni 'nid-er-elw'.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf, cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru rhif 2366777. Swyddfa gofrestredig: Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol CF46 6LY.

**Bargoed**
Aberbargoed
Gilfach

**Blackwood**
Cefn Forest
Cwmgelli
Fair View
Fleur-de-lys
Gellihaf
Glan y nant
Pengam
Penmaen
Pontllanfraith
Woodfieldside
Wyllie

**Caerphilly**
Bedwas
Llanbradach
Machen
Porset
Pwllypant
Rudry
Trethomas
Wernddu

**Cardiff**
Pentyrch
St. Brides-Super-Ely

**Cowbridge**

**Hengoed**
Cefn Hengoed
Gelligaer
Maesycwmmer
Penallta
Penpedairheol
Penybryn
Tir-y-berth
Ystrad Mynach

**Merthyr Tydfil**
Abercanaid
Aberfan
Cefn Coed
Cwmtaf
Merthyr Vale
Pentrebach
Penydarren
Troedyrhiw

**Mountain Ash**
Abercynon
Penrhiwceiber

**Newport**
Draethen
Lower Machen

**Pontyclun**
Cross Inn
Groesfaen
Hensol
Llantrisant

**Pontypridd**
Beddau
Church Village
Cilfynydd
Coed-Y-Cwm
Efail Isaf
Glyngoch
Graig
Graigwen
Hawthorn
Llantwit Fardre
Maesycoed
Penycoedcae
Rhydyfelin
Tonteg
Trallwn
Treforest
Treforest Industrial Estate
Upper Boat
Upper Church Village
Ynysybwl

**Porth**
Gilfach Goch
Tonyrefail

**Tonypandy**
Clydach Vale
Llwynypia
Penygraig
Trealaw

**Treharris**
Edwardsville
Nelson
Quakers Yard
Trelewis